

# Canllaw i denantiaid ar daliadau gwasanaeth mewn Tai Lloches

Mae tâl gwasanaeth ynghlwm wrth wasanaethau ychwanegol sy'n cael eu darparu ar gyfer y tenantiaid sydd ddim wedi'u cynnwys yn rhan o'r taliadau rhent. Mae'r taliadau gwasanaeth yn cael eu nodi ar wahân mewn dadansoddiad blynyddol, ac maen nhw'n dangos cost wirioneddol ar gyfer y gwasanaeth sydd wedi'i ddarparu mewn cynllun penodol. Bydd y taliadau gwirioneddol yn seiliedig ar gostau ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol, a gall amrywio o flwyddyn i flwyddyn yn dibynnu ar ba wasanaethau sydd wedi'u derbyn.

Bydd taliadau gwasanaeth yn wahanol, yn dibynnu ar ba gynllun tai lloches rydych chi'n byw ynddo. Bydd y taliadau yn adennill cost y gwasanaeth yn unig. Nid yw'r Cyngor yn gwneud elw.

## Beth yw tâl gwasanaeth?

Mae'r tâl gwasanaeth yn adlewyrchu'r gost sy'n gysylltiedig â gwneud atgyweiriadau yn y manau cyffredin neu waith sy'n cadw'r cynllun tai lloches mewn cyflwr da, ei reoli, a darparu unrhyw wasanaethau ychwanegol ar eich cyfer chi. Mae'n swm sy'n cael ei dalu gan denant am y gwasanaethau ychwanegol sy'n cael eu derbyn nad ydynt yn cael eu cynnwys yn y taliadau rhent.

Bydd y swm y byddwn ni'n ei godi yn dibynnu ar ba wasanaethau sy'n cael eu darparu, er enghraifft:

- Golau yn yr ardaloedd cymunedol
- Cyfleusterau golchi dillad
- Teledu Cylch Cyfyng yn yr ardaloedd cymunedol
- Erialau teledu digidol
- Gwaith atgyweirio mewn ardaloedd cymunedol
- Systemau mynediad ar y drysau
- Fftiadau, gosodiadau, a dodrefn cymunedol
- Liffitiau
- Gwaith trin, a chynnal a chadw

Ni fyddwch chi'n cael dewis peidio â thalu tâl gwasanaeth oherwydd nad ydych chi'n defnyddio unrhyw un neu ragor o'r gwasanaethau hynny sydd ar gael yn eich cynllun.

Weithiau, bydd angen amnewid eitemau mwy – megis peiriannau golchi – sy'n gallu bod yn ddrud. Er mwyn sicrhau nad oes rhaid i'r gost fawr gael ei thalu ar unwaith, bydd y taliadau'n cael eu rhannu ar draws nifer o 'flynyddoedd oes'.

Yn achos lifftiau, mae'r tâl yn seiliedig ar gyfartaledd y gost amnewid ynghyd â'r tâl am waith cysylltiedig o ran trin a chynnal a chadw.

## Faint bydd rhaid i mi ei dalu?

Bydd eich taliadau gwasanaeth yn cael eu cyfrifo ar sail y costau gwirioneddol am ddarparu'r gwasanaeth yn ystod y flwyddyn flaenorol. Bydd tâl bach hefyd i dalu am ein costau gweinyddol (10%).

Bydd cyfanswm cost darparu gwasanaethau mewn cynllun tai lloches penodol yn cael ei rhannu'n gyfartal ymhlith yr holl breswylwyr sy'n byw yno.

## Sut byddwn ni'n cyfrifo'ch tâl gwasanaeth am y flwyddyn?

Bob blwyddyn, byddwn ni'n asesu faint rydyn ni'n disgwyl ei wario ar ddarparu gwasanaethau ar gyfer eich cynllun. Bydd y taliadau hyn yn seiliedig ar gostau gwirioneddol y gwasanaeth ar gyfer y cynllun tai lloches am y flwyddyn flaenorol, wedi'u rhannu â nifer y cartrefi yn y cynllun, i gael gwybod y gost ar gyfer pob cartref.

Enghraifft: I gyfrifo tâl gwasanaeth am wasanaeth golchi dillad ar gyfer 2017/18, byddwn ni'n cymryd:

Costau gwirioneddol y gwasanaeth golchi dillad ar gyfer 2016/17 – e.e. £500 – a'u rhannu â 48 wythnos (heb gynnwys wythnosau rhenti heb eu casglu) = £10.41

Yna, rhannu'r ffigur yma â nifer yr unedau yn y cynllun – e.e. 49 uned  
= Tâl i bob tenant – 21c yr wythnos

## A fydd Budd-dal Tai yn fy helpu i dalu cost y taliadau gwasanaeth?

Efallai bydd modd defnyddio Budd-dal Tai i dalu am rai o'r taliadau gwasanaeth, os ydych chi'n gymwys i gael cymorth.

Mae'r tabl isod yn rhoi rhagor o fanylion i chi:

Tâl gwasanaeth	Yn gymwys o ran Budd-dal Tai
Cynnal a chadw tiroedd	Ydy
Costau'r landlord o ran goleuo a gwresogi'r ardal gymunedol	Ydy
Gwella'r gosodiadau a'r ffitiadau yn yr ardal gymunedol	Ydy
Cost cynnal a chadw'r offer monitro (megis Llinell Gofal)	Ydy
Gwaith atgyweirio bach yn yr ardal gymunedol	Ydy
Cyfleusterau golchi dillad – cost yr offer a'r gwaith cynnal a chadw	Ydy
Gosod, monitro a gwasanaethu'r system Teledu Cyloch Cyfyng	Ydy
Monitro a gwasanaethu'r system mynediad ar y drysau	Ydy
Monitro offer diogelwch yn yr ardal gymunedol	Ydy
Gwasanaethu'r cyfleusterau cymunedol – megis offer diogelwch tân	Ydy
Glanhau'r ardaloedd cymunedol, gan gynnwys cost y deunyddiau	Ydy
Addurno'r ardal gymunedol	Ydy
Glanhau'r ffenestri mewn llety lloches	Ydy
Gwasanaethu'r lifft	Ydy

Sylwch nad yw'r rhestr yma'n gynhwysfawr, a gall newid.

## **Beth fydd fy nhaliadau gwasanaeth yn ei gynnwys, a sut bydda i'n gwybod beth i'w dalu?**

Bydd tâl yn cael ei godi am gostau'r gwasanaethau rydych chi'n eu cael.

Tua mis Medi bob blwyddyn byddwn ni'n anfon dadansoddiad atoch chi o'ch taliadau gwasanaeth a'ch costau cyfleustodau er mwyn i chi wybod faint byddwch chi'n ei dalu ar gyfer y flwyddyn i ddod.

## **Sut rydw i'n talu'r taliadau gwasanaeth?**

Mae'r taliadau gwasanaeth yn daladwy gyda'ch rhent a'ch trethi dŵr, ac yn dilyn yr un trefniant talu.

Byddwn ni'n casglu rhent a thaliadau gwasanaeth dros gyfnod o 48 wythnos, gan ddarparu ar gyfer pedair wythnos bob blwyddyn pan nad ydyn nhw'n cael eu casglu.

Bob blwyddyn, mae gennym ni bedair wythnos (2 wythnos ym mis Awst a 2 wythnos ym mis Rhagfyr) pan na fyddwn ni'n casglu rhent na thaliadau gwasanaeth gennych chi.

Os ydych chi wedi talu'ch rhent a'ch taliadau gwasanaeth i gyd, ni fydd angen i chi wneud unrhyw daliadau yn ystod yr wythnosau pan na fyddwn ni'n casglu. Fodd bynnag, os ydych ar ei hôl hi, bydd rhaid i chi barhau â'ch taliadau arferol er mwyn lleihau neu glirio'r hyn sy'n ddyledus i ni.

Byddwch yn cael gwybod am eich rhent wythnosol, eich taliadau cyfleustodau a'ch taliadau gwasanaeth ar eich cerdyn rhent, a byddwch chi hefyd yn cael llythyr blynyddol sy'n cynnwys dadansoddiad o'ch tâl gwasanaeth.

## **Ymgynghori**

Byddwn ni'n ymgynghori â thenantiaid yn ôl yr angen. Mae modd ymgynghori â thenantiaid er mwyn addasu, lleihau neu gynyddu'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu. Mae modd adolygu'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu er mwyn lleihau'r taliadau gwasanaeth sy'n cael eu codi ar denantiaid, lle bo hynny'n rhesymol ac yn bosibl.

Rhaid i fwyafrif o 60% o gartrefi sy'n bwrw pleidlais fod o blaid darparu gwasanaeth newydd neu addasu, lleihau, neu ddileu gwasanaeth. Bydd hyn yn sicrhau defnyddio'r costau mewn ffordd deg a rhesymol. Mae'n bwysig, felly, eich bod chi'n cymryd rhan yn y broses ymgynghori er mwyn cael mynegi'ch barn.

## **Os nad ydw i'n fodlon ar swm y tâl gwasanaeth mae disgwyl i mi ei dalu, beth sy'n digwydd?**

Yn gyntaf, cewch chi gyfle i drafod eich pryderon gyda'ch Swyddog Tai Lloches neu'r Arweinydd Tîm. Fodd bynnag, os nad ydych chi'n fodlon, cewch chi wneud cais am adolygiad drwy gysylltu â'r Tîm Tai Pobl Hÿn a gofyn iddyn nhw gynnal ymchwiliadau pellach i sicrhau bod eich taliadau'n deg.

Ni chewch chi ofyn am adolygu tâl oherwydd nad ydych am ei gael neu oherwydd nad ydych chi'n defnyddio un neu ragor o'r gwasanaethau sydd ar gael.

Mae rhaid i ni, yn ôl y gyfraith, ddarparu rhai o'r gwasanaethau – er enghraifft, system synhwyro tân – a bydd rhaid i ni godi tâl arnoch chi am y rhain fel gwasanaethau statudol.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Swyddog Tai Lloches yn eich cynllun.

Mae modd cael rhagor o gymorth a chyngor gan y Tîm Tai Pobl Hÿn:

Ffôn: 01443 811431 / E-bost: [taipoblhyn@caerffili.gov.uk](mailto:taipoblhyn@caerffili.gov.uk)